Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Trefniadau Awdurdodau Lleol i Helpu i Ddiogelu Plant

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Blwyddyn archwilio: 2014-15

Cyhoeddwyd: Hydref 2014

Cyfeirnod y ddogfen: 334A2014

Statws yr adroddiad

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid oes unrhyw gyfrifoldeb ar Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) na'r archwilydd penodedig, lle y bo'n gymwys, mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, yn cynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, lle y bo'n gymwys, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

Brian Jones a gyflawnodd y gwaith.

Cynnwys

Adroddiad cryno	
Cefndir	4
Canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad	4
Cynigion ar gyfer gwella	7
Atodiadau	
Crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg	8

Adroddiad cryno

Cefndir

1. Mae pawb yn gyfrifol am ddiogelu plant. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i roi trefniadau diogelu ar waith sy'n cynnwys gwaith cynllunio strategol, cymorth a chanllawiau i holl ddarparwyr gwasanaethau perthnasol yn eu hardal, a darparu rhai gwasanaethau yn uniongyrchol eu hunain. Yn arbennig, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i weithio mewn partneriaeth ag eraill er mwyn sicrhau diogelwch a lles plant yn eu hardal, gan gynnwys y Bwrdd Lleol Diogelu Plant.

2. Mae gan gyflogeion a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant ddyletswyddau a chyfrifoldebau diogelu penodol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ac ysgolion sicrhau, drwy eu trefniadau Adnoddau Dynol a phersonél, fod gwiriadau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod gan gyflogeion a gwirfoddolwyr gymeriad da a bod eu harferion gwaith yn cael eu rheoli a'u monitro. Hefyd, mae'n rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod prosesau ar waith i ymchwilio i honiadau a wneir yn erbyn staff, athrawon a staff cymorth, a gwirfoddolwyr a'u cofnodi.

3. Mae angen i aelodau, Prif Weithredwyr ac uwch reolwyr sicrhau eu bod yn goruchwylio'r trefniadau diogelu sydd ar waith ar draws yr awdurdod mewn modd priodol. Dylent fynd ati i geisio a chael sicrwydd bod trefniadau yn gweithredu'n effeithiol oherwydd, heb y sicrwydd hwn, ni fyddant yn gallu dangos eu bod wedi cyflawni eu rhwymedigaeth statudol o ran diogelu.

4. Rhwng mis Mawrth a mis Mai 2014, cwblhaodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) ar gyfer sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith ac yn cael eu dilyn. Ystyriodd yr astudiaeth yr hyn y mae'r Cyngor ei hun wedi'i wneud i geisio sicrwydd bod ei drefniadau i helpu i ddiogelu plant yn effeithiol, drwy adolygu'r ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu ar bob lefel: cabinet, uwch dîm rheoli, pwyllgor craffu a swyddogion unigol.

5. Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar ateb y canlynol: **A yw trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor yn rhoi sicrwydd bod plant yn cael eu diogelu? Y prif gwestiynau yr oedd yr adolygiad yn ceisio eu hateb oedd:**

- A oes trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli clir ar gyfer monitro a yw'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant?
- A yw'r Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso gwybodaeth briodol, sy'n rhoi sicrwydd ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant?
- A yw systemau sicrwydd yn gweithredu'n effeithiol?

Canfyddiadau a chasgliadau'r adolygiad

6. Fel rhan o'r astudiaeth hon, darparwyd arolwg ar-lein i aelodau etholedig, uwch reolwyr, a staff addysg, ysgolion a hamdden er mwyn profi trefniadau'r Cyngor ym maes diogelu. Mae arolygon yn werthfawr am eu bod yn cynnig cipolwg ar waith y Cyngor o safbwynt y bobl sy'n gwneud penderfyniadau ac sy'n gwneud y gwaith.

Maent hefyd yn ein galluogi i brofi cryfderau neu wendidau perthynol trefniadau diogelu lleol a nodi ble y gall cynghorau wneud gwelliannau. Edrychwyd hefyd ar bolisïau sy'n berthnasol i waith diogelu; adroddiadau i'r Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu; a nodwn isod ein casgliadau ar i ba raddau y mae'r Cyngor wedi rhoi ar waith brosesau a rheolaethau sicrwydd a rheoli effeithiol ym maes diogelu ac yn eu gweithredu. Nodir canfyddiadau manwl yr arolwg ar gyfer y Cyngor yn Atodiad 1, er ein bod yn cynnwys y prif gasgliadau lle bo'n berthnasol ym mhob un o'r adrannau canlynol.

Mae'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer monitro a yw'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant yn addas at y diben ar y cyfan ond yn cael eu rheoli'n effeithiol

7. Mae diogelu yn flaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor ac mae Polisi Diogelu Corfforaethol penodol ar waith hefyd. Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor wedi'i gymeradwyo gan y BLlDP ac ar adeg ein hadolygiad roedd yn cael ei gyflwyno drwy'r Cyngor cyfan. Mae'r polisi wedi'i fabwysiadu bellach ac mae'n cael ei sefydlu drwy gyfres o adolygiadau gweithredol er mwyn nodi meysydd lle y gellir atgyfnerthu arfer. Canfu ein harolwg fod 94 y cant o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth uchel i'r Cyngor, ychydig islaw cyfartaledd ein harolwg Cymru gyfan o 96 y cant.

8. Mae'r Cyngor hefyd wedi sefydlu Panel Diogelu Corfforaethol sy'n cynnwys uwch aelodau etholedig a swyddogion, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Plant. At hynny, mae Arweinydd y Cyngor yn cyflawni rôl Eiriolwr Plant. Mae'r tîm rheoli corfforaethol yn cael gwybodaeth reolaidd am faterion diogelu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

9. Mae'r Swyddogion Addysg a Gwasanaethau Plant i gyd yn ymwybodol o bwysigrwydd diogelu a rôl yr Uwch Swyddogion Dynodedig i orchwylio'r gwaith hwn. Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd y Cyngor wedi nodi'r Uwch Swyddogion Dynodedig ar gyfer gwasanaethau unigol na chytuno arnynt. Ymdriniwyd â'r mater hwn bellach ac mae arweinwyr dynodedig wedi'u henwebu ym mhob cyfarwyddiaeth. Canfu ein harolwg fod cyfran is na chyfartaledd yr arolwg wedi nodi eu bod yn gwybod pwy oedd Swyddog Dynodedig y Cyngor ar gyfer Amddiffyn Plant, sef 62 y cant o gymharu â chyfartaledd ein harolwg Cymru gyfan, sef 67 y cant. Yn yr un modd, roedd llai o ymatebwyr yn gwybod pwy oedd arweinydd y Cyngor ar gyfer amddiffyn plant, 39 y cant yn y Cyngor o gymharu â chyfartaledd arolwg Cymru gyfan, sef 44 y cant.

10. Caiff risgiau lefel uchel eu rheoli drwy'r Gofrestr Risgiau Gorfforaethol ac fe'i hadolygir bob chwarter gan y Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol. Mae gan Wasanaethau Cymdeithasol Plant ac Addysg gofrestrau risg lefel gwasanaeth a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Yn y naill a'r llall, caiff rigiau eu sgorio; nodir camau lliniaru; a chynhyrchir sgôr risg weddilliol.

Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso ei gyfrifoldebau diogelu plant yn cynnwys rhai gwendidau y mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â hwy

11. Ceir dulliau sefydledig o gasglu a chofnodi data. Mae Gwasanaethau Plant yn casglu data ar gyfer 30 o ddangosyddion perfformiad ac yn cyflwyno adroddiadau arnynt a chaiff perfformiad ei feincnodi yn erbyn 'teulu' o awdurdodau yng Nghymru yn ogystal ag asesu perfformiad y Cyngor dros amser. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi nodi bod angen iddo atgyfnerthu'r trefniadau hyn drwy gasglu data mwy ansoddol ar ganlyniadau penodol ac ehangu cwmpas ei waith casglu data er mwyn cynnwys gwybodaeth briodol am berfformiad gwasanaethau eraill heblaw am Addysg a Gofal Cymdeithasol ym maes diogelu. Felly, mae'r Cyngor yn bwriadu cynnwys nifer fach o ddangosyddion diogelu corfforaethol yn ei set ddata. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, y canlynol:

- canran y staff sy'n dechrau ar eu swyddi gyda dau eirda a gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)
- canran y staff sy'n cael hyfforddiant ym maes diogelu fel rhan o'u rhaglen sefydlu; a
- canran y cynghorwyr sy'n cael hyfforddiant ym maes diogelu.

12. O'n harolwg, nodwyd bod ychydig mwy o ymatebwyr yng Nghonwy yn deall sut mae eu rôl yn helpu i ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc na chyfartaledd yr arolwg, 96 y cant o gymharu â 95 y cant. Yn baradocsaidd, roedd ychydig llai o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod eu cyfrifoldebau ym maes diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc wedi cael eu hegluro pan wnaethant ddechrau ar eu rôl na chyfartaledd yr arolwg, 73 y cant o gymharu â chyfartaledd yr arolwg o 75 y cant.

13. Mae gweithdrefnau cyffredinol ar gyfer gweinyddu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ac maent yn effeithiol. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth bod peth oedi wedi bod cyn ymateb i newidiadau mewn deddfwriaeth ac nad oedd yn glir a oedd gweithdrefnau gwirio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cysoni'n llawn â'r ddeddfwriaeth newydd. Mewn maes mor bwysig, mae'n hanfodol bod y Cyngor yn sicr bod ganddo bolisi a gweithdrefnau recriwtio cadarn a diogel a'i fod yn eu gweithredu. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r diffyg hwn a bydd yn mynd i'r afael ag ef fel rhan o'i grŵp gorchwyl a gorffen ar Recriwtio Diogel.

14. Er bod y Cyngor wedi nodi pwysigrwydd hyfforddiant i aelodau etholedig a staff a gwirfoddolwyr yn glir ac wedi'i ddarparu, nid yw presenoldeb wedi'i reoli'n gyson. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwella ei berfformiad yn y maes hwn ac mae'n adolygu perfformiad cyfredol ac yn nodi opsiynau ar gyfer gwella drwy ei Grŵp Diogelu Corfforaethol. Dangosir hyn yn ein harolwg a ganfu fod y Cyngor ychydig yn is na chyfartaledd yr arolwg o ran nifer y bobl sydd wedi cael hyfforddiant ym maes diogelu yn ystod y chwe mis diwethaf - 28 y cant o gymharu â 23 y cant. Hefyd, mae mwy o bobl nad ydynt wedi cael hyfforddiant ym maes diogelu, 12 y cant yn y Cyngor o gymharu â chyfartaledd ein harolwg, sef 10 y cant.

Mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn nodi ac yn gweithredu ar welliannau o ran ei drefniadau diogelu yn ddigonol ond gellid gwneud rhai gwelliannau

15. Mae gan y Cyngor Reolwr Data a thîm sy'n rhoi cyngor ar ddiogelu data ac yn hyrwyddo diogelu data. Mae pob aelod o'r staff Gwasanaethau Plant yn cael hyfforddiant bob blwyddyn ym maes diogelu data ac mae ganddynt gabinetau diogel a chyfrifiaduron wedi'u hamgryptio. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff ddilyn cwrs a sefyll prawf ar-lein ym maes diogelu data. Mae'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi gwneud rhywfaint o waith ym maes diogelu ac mae Pwyllgorau Craffu yn cael adroddiadau rheolaidd ar berfformiad.

16. Mae'r gwasanaeth hefyd yn defnyddio Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac yn cynnal archwiliadau misol â thema o sampl o achosion er mwyn profi effeithiolrwydd y system bresennol. Caiff gwybodaeth o archwiliadau diogelu blynyddol ysgolion ei monitro gan y Cydgysylltydd Amddiffyn Plant sy'n llunio adroddiadau ar berfformiad. Cynhelir archwiliad diogelu blynyddol ar gyfer pob ysgol hefyd sy'n nodi risgiau yn yr ysgol a chanfuwyd tystiolaeth bod y dull gweithredu hwn yn gweithio. Er enghraifft, nododd nifer o ysgolion fod angen gwella hyfforddiant ym maes diogelu.

17. Canfu ein harolwg fod llai o ymatebwyr yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y Cyngor yn delio'n effeithiol â digwyddiadau penodol yn ymwneud â diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc, 78 y cant o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 82 y cant. At hynny, roedd cyfran is na chyfartaledd yr arolwg yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod y Cyngor yn hysbysu'r holl rieni am y ffordd y caiff eu plant eu diogelu a'u hamddiffyn wrth ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor ac ysgolion, 47 y cant o gymharu â 55 y cant.

Cynigion ar gyfer gwella

C1	Rhoi gwybodaeth am faes diogelu a chyfrifoldebau'r Cyngor i bob aelod perthnasol o staff a fyddai'n cael budd ohoni a darparu hyfforddiant i bob aelod etholedig.
C2	Bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys diogelu yn ei raglen archwilio flynyddol er mwyn rhoi sicrwydd ar effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor.

Atodiad 1

Crynodeb o ganfyddiadau'r arolwg

Arolwg o holl Gynghorau Cymru ar ddiogelu plant ac amddiffyn pobl ifanc: Conwy



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim Ateb	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	Ddim yn gwybod
Conwy	127	-	1	74	44	3	1	4
Barn a fynegwyd *				59%	35%	2%	1%	3%
Cymru Gyfan	1996	-	6	1235	664	53	12	26
Barn a fynegwyd *				62%	33%	3%	1%	1%



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim Ateb	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	Ddim yn gwybod
Conwy	127	-	-	45	48	31	2	1
Barn a fynegwyd *				35%	38%	24%	2%	1%
Cymru Gyfan	1996	-	10	716	773	358	104	35
Barn a fynegwyd *				36%	39%	18%	5%	2%

** Fel bod yr adroddiad yn haws i'w ddarllen, dangosir canrannau i'r pwynt canran cyfan agosaf. Felly, mae'n bosibl nad yw'r ffigurau unigol yn creu cyfanswm o 100% yn union.*



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim Ateb	Y Prif Weithredwr	Y Tîm Rheoli Corfforaethol	Y Pennaeth Gwasanaeth yn fy adran	Fy rheolwr llinell	Arweinydd y Cyngor	Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol /Addysg	Pob un o'r uchod	Ddim yn gwybod	Rhywun arall nad yw wedi'i restru, nodwch isod
Conwy	127	-	2	13	2	5	3	3	1	79	10	9
Barn a fynegwyd *				10%	2%	4%	2%	2%	1%	63%	8%	7%
Cymru Gyfan	1996	-	68	223	34	124	47	19	69	1231	115	66
Barn a fynegwyd *				12%	2%	6%	2%	1%	4%	64%	6%	3%

* Fel bod yr adroddiad yn haws i'w ddarllen, dangosir canrannau i'r pwynt canran cyfan agosaf. Felly, mae'n bosibl nad yw'r ffigurau unigol yn creu cyfanswm o 100%

** Fel bod yr adroddiad yn haws i'w ddarllen, dangosir canrannau i'r pwynt canran cyfan agosaf. Felly, mae'n bosibl nad yw'r ffigurau unigol yn creu cyfanswm o 100% yn union.*



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim Ateb	Ydw	Nac Ydw
Conwy	127	-	2	77	48
Barn a fynegwyd *				62%	38%
Cymru Gyfan	1996	-	13	1337	646
Barn a fynegwyd *				67%	33%



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim Ateb	Ydw	Nac Ydw
Conwy	127	-	-	49	78
Barn a fynegwyd *				39%	61%
Cymru Gyfan	1996	-	13	881	1102
Barn a fynegwyd *				44%	56%

** Fel bod yr adroddiad yn haws i'w ddarllen, dangosir canrannau i'r pwynt canran cyfan agosaf. Felly, mae'n bosibl nad yw'r ffigurau unigol yn creu cyfanswm o 100% yn union.*



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim Ateb	0-6 mis yn ôl	7-12 mis yn ôl	1-2 flynedd yn ôl	Mwy na dwy flynedd yn ôl	Methu cofio	Byth wedi cael hyfforddiant
Conwy	127	-	-	36	23	22	22	9	15
Barn a fynegwyd *				28%	18%	17%	17%	7%	12%
Cymru Gyfan	1996	-	4	644	462	374	199	121	192
Barn a fynegwyd *				32%	23%	19%	10%	6%	10%



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim Ateb	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	Ddim yn gwybod
Conwy	127	-	1	78	40	1	-	7
Barn a fynegwyd *				62%	32%	1%		6%
Cymru Gyfan	1996	-	10	1266	628	27	4	61
Barn a fynegwyd *				64%	32%	1%	0%	3%

** Fel bod yr adroddiad yn haws i'w ddarllen, dangosir canrannau i'r pwynt canran cyfan agosaf. Felly, mae'n bosibl nad yw'r ffigurau unigol yn creu cyfanswm o 100% yn union.*



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim ateb	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	Ddim yn ymwybodol o unrhyw
Conwy	127	-	-	44	54	4	1	24
Barn a fynegwyd *				35%	43%	3%	1%	19%
Cymru Gyfan	1996	-	11	722	911	76	5	271
Barn a fynegwyd *				36%	46%	4%	0%	14%



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim Ateb	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	Ddim yn gwybod
Conwy	127	-	2	43	61	4	-	17
Barn a fynegwyd *				34%	49%	3%		14%
Cymru Gyfan	1996	-	20	665	1000	74	3	234
Barn a fynegwyd *				34%	51%	4%	0%	12%

** Fel bod yr adroddiad yn haws i'w ddarllen, dangosir canrannau i'r pwynt canran cyfan agosaf. Felly, mae'n bosibl nad yw'r ffigurau unigol yn creu cyfanswm o 100% yn union.*



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim Ateb	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	Ddim yn gwybod
Conwy	127	-	5	35	48	7	-	32
Barn a fynegwyd *				29%	39%	6%		26%
Cymru Gyfan	1996	-	17	491	895	182	19	392
Barn a fynegwyd *				25%	45%	9%	1%	20%



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim Ateb	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	Ddim yn gwybod
Conwy	127	-	2	26	35	24	3	37
Barn a fynegwyd *				21%	28%	19%	2%	30%
Cymru Gyfan	1996	-	20	344	794	339	79	420
Barn a fynegwyd *				17%	40%	17%	4%	21%

** Fel bod yr adroddiad yn haws i'w ddarllen, dangosir canrannau i'r pwynt canran cyfan agosaf. Felly, mae'n bosibl nad yw'r ffigurau unigol yn creu cyfanswm o 100% yn union.*



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim ateb	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	Ddim yn gwybod	Ddim yn Gymwys
Conwy	127	-	6	44	58	6	-	10	3
Barn a fynegwyd *				37%	49%	5%		8%	3%
Cymru Gyfan	1996	-	39	701	942	114	14	160	26
Barn a fynegwyd *				36%	49%	6%	1%	8%	1%



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim ateb	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	Ddim yn gwybod	Ddim yn Gymwys
Conwy	127	49	11	33	18	-	-	-	16
Barn a fynegwyd *				65%	35%				31%
Cymru Gyfan	1996	1399	34	435	92	3	-	5	28
Barn a fynegwyd *				81%	17%	1%		1%	5%

** Fel bod yr adroddiad yn haws i'w ddarllen, dangosir canrannau i'r pwynt canran cyfan agosaf. Felly, mae'n bosibl nad yw'r ffigurau unigol yn creu cyfanswm o 100% yn union.*



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim ateb	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	Ddim yn gwybod
Conwy	127	-	-	69	52	3	-	3
Barn a fynegwyd *				54%	41%	2%		2%
Cymru Gyfan	1996	-	29	1174	683	64	8	38
Barn a fynegwyd *				60%	35%	3%	0%	2%



	Cyfanswm	Heb ofyn	Dim ateb	Cytuno'n Gryf	Cytuno	Anghytuno	Anghytuno'n Gryf	Ddim yn gwybod
Conwy	127	-	1	18	42	15	2	49
Barn a fynegwyd *				14%	33%	12%	2%	39%
Cymru Gyfan	1996	-	27	269	816	213	29	642
Barn a fynegwyd *				14%	41%	11%	1%	33%

** Fel bod yr adroddiad yn haws i'w ddarllen, dangosir canrannau i'r pwynt canran cyfan agosaf. Felly, mae'n bosibl nad yw'r ffigurau unigol yn creu cyfanswm o 100% yn union.*

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk